# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Adrian Paci. Per Speculum, 2006. Ffilm ar 16mm, hyd 8 munud
Diolch i Galleria Francesca Kaufman, Milan

## Ymgynghoriad ar y Canllawiau Statudol

Ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru

Hydref 2015

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

"Os yw'r gwyddonwyr yn gywir, rydym yn byw drwy'r peth mwyaf a ddigwyddodd ers i wareiddiad dynol ymddangos. Y mae un rhywogaeth, ein rhywogaeth ni, ar ei phen ei hun ac yng nghwrs ychydig genedlaethau wedi llwyddo i godi tymheredd planed gyfan, gan daro ei systemau mwyaf sylfaenol allan o drefn. Ond, yn rhyfedd, er inni wybod amdano, ni wyddom amdano. Ni threiddiodd i fêr ein hesgyrn; nid yw'n rhan o'n diwylliant. Ble mae'r llyfrau? Y cerddi? Y dramâu? Ble ddiawl mae'r operâu?

Bill McKibben *Open Democracy* (2005)

"Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng y cyfoethog a'r tlawd wedi'i weld. Y mae wedi'i weld, yn fwyaf difrifol ac nid yn annaturiol, gan y tlawd. Am iddynt ei sylwi arno, ni fydd yn para am hir. Beth bynnag arall a wyddom yn y byd a fydd yn goroesi tan y flwyddyn 2000, ni fydd hynny. Unwaith y mae'r tric o fod yn gyfoethog yn hysbys, fel y mae'n awr, ni all y byd oroesi â'r naill hanner yn gyfoethog a'r llall yn dlawd. 'Dyw'r peth ddim yn bosib."

C P Snow *The Two Cultures* (1959)

# Cyflwyniad

## Dychmygwch…

Dychmygwch Gymru. Ac wedi gwneud hynny – ei gweld, ei chlywed, ei mwynhau, darllen amdani, ei dathlu – ceisiwch feddwl am ein gwlad heb gân, heb y gair llafar ar lwyfan na sgrin, heb farddoniaeth na nofelau, na dawns na cherfluniau na cherameg na phaentiadau na delweddau, na'r holl draddodiadau byw a wna ein diwylliant cyfoes mor ddeinamig.

Mewn gwirionedd, yn ogystal ag yn ein dychymyg, nid oes Cymru'r bobl heb gelfyddyd. Mae celfyddyd yn ffurfio, yn diffinio ac yn cynnal – y mae'n sylfaen i'n llesiant, yn awr ac i'r dyfodol.

## Ynglŷn â Chyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru yw sefydliad cyllido a datblygu swyddogol y wlad ar gyfer y celfyddydau. Ein prif noddwr yw Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn dosbarthu cyllid y Loteri Genedlaethol ac yn codi arian ychwanegol lle y gallwn o amrywiaeth o ffynonellau'r sector cyhoeddus a phreifat. Gan gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid, rydym yn cynorthwyo a hyrwyddo'r rôl bwysig sydd i'r celfyddydau ym mywydau pobl, gan ddarparu cyfleoedd i bobl ledled Cymru fwynhau gweithgareddau creadigol a chymryd rhan ynddynt. Buddsoddwn tua £45m y flwyddyn yn y celfyddydau yng Nghymru.

## Pwysigrwydd y celfyddydau i gymunedau lleol

Hawdd yw esgeuluso'r hyn sy'n sylfaenol bwysig a hanfodol i Gymru ffyniannus ac iach.

Y mae'r celfyddydau yn cyfrannu at bob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Maent yn goleuo a rhoi bywyd i'r amrywiaeth eang o strategaethau sy'n sail i fywyd dinesig. O'r celfyddydau ac iechyd i dwristiaeth ddiwylliannol, ac o gelf gyhoeddus i adfywio canol trefi, mae'r celfyddydau yn rhoi ystyr, dilysrwydd a mwynhad i'n bywydau bob dydd. Y maent yn creu a chynnal swyddi, yn cyfoethogi gwasanaethau addysg ac yn dwyn pobl ynghyd.

Y mae'r celfyddydau yn cyfoethogi ein bywydau. Y mae'r celfyddydau a diwylliant yn sail i'n synnwyr o lesiant ac yn gwella ansawdd ein bywyd. Y mae'r celfyddydau a diwylliant yn adlewyrchu ar fywyd ei hun. Mae'r celfyddydau yn cyfri.

## Saith rheswm pam fod y celfyddydau yn cyfri …

1. Mae'r celfyddydau yn helpu i greu Cymru Ffyniannus – mae'r celfyddydau yn bwysig ynddynt eu hunain o ran y mwynhad a'r ysbrydoliaeth a gynigant. Ond y mae'r

diwydiannau creadigol a diwylliannol hefyd yn beiriant hanfodol i economi Cymru. Maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at greu swyddi a chyfoeth, drwy greu, dosbarthu a masnachu nwyddau a gwasanaethau.

2. Mae'r celfyddydau yn helpu i greu Cymru Gydnerth – mae'r celfyddydau yn meithrin arloesedd a chreadigrwydd. Mae creadigrwydd yn ymestyn y tu hwnt i faes y celfyddydau a diwylliant, er mai dyna'r tir ffrwythlon naturiol iddo. Y mae creadigrwydd yn sgil y gellir ei ddefnyddio i gynnig atebion arloesol i broblemau cyfarwydd, ac annog ffyrdd newydd o feddwl a byw.

3. Mae'r celfyddydau yn helpu i greu Cymru Iachach – gall cymryd rhan yn y celfyddydau hybu ffordd iachach o fyw, lleihau straen, helpu i rwystro afiechyd a meithrin mwy o lesiant. Mae'r celfyddydau, creadigrwydd ac ansawdd dylunio yn gwella amgylcheddau gofal iechyd ac yn darparu gwell cyfleusterau i gleifion a staff gofal iechyd.

4. Mae'r celfyddydau yn helpu i greu Cymru sy'n fwy Cydradd – wrth reddf, mae'r celfyddydau yn ymestyn allan, yn cyffwrdd ac yn ymgysylltu. Ac ar eu gorau gallant ymestyn y tu hwnt i'r hawdd a'r amlwg, gan waredu'r rhwystrau diwylliannol, economaidd, cymdeithasol a daearyddol a allai fel arall atal pobl rhag ymgysylltu. Mae manteision y celfyddydau yn bwysig ac yn cyfoethogi bywyd – rhaid mai gwireb, felly, yw y dylai'r fath fanteision fod ar gael i bawb mewn cymdeithas deg a goddefgar.

5. Mae'r celfyddydau yn helpu i greu Cymru o Gymunedau Cydlynol – mae ymwneud â gweithgarwch creadigol yn cynyddu hyder unigolion a chymunedau a'u synnwyr o hunan-werth, ac mae'n adeiladu cydlyniad cymdeithasol drwy greu cyfeillgarwch a synnwyr o 'berthyn'. Gall wneud i bobl deimlo'n fwy diogel ac yn fwy cadarnhaol ynglŷn â lle maent yn byw, ac ymfalchïo yn eu diwylliant neu'u hethnigrwydd eu hunain.

6. Mae'r celfyddydau yn helpu i greu Cymru o Ddiwylliant a Chymraeg Ffyniannus – nid oes dim yn gwneud Cymru yn fwy nodedig na'i diwylliant a'i hieithoedd. Mae'r Gymraeg yn gyfrwng i ddeall a mwynhau llenyddiaeth a diwylliant eithriadol o gyfoethog. Mae creadigrwydd yn ffynnu ar hyn ac mae'n gydran allweddol i barhau â rôl hanfodol y Gymraeg wrth wraidd bywyd yng Nghymru.

7. Mae'r celfyddydau yn helpu i greu Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang – mae'r celfyddydau yn ein helpu i werthfawrogi a deall y byd yr ydym yn byw ynddo. Maent yn ysbrydoli ac yn cyffroi. Maent hefyd yn ein helpu i gwestiynu ac archwilio, gan gynnig dealltwriaeth newydd o heriau cyfarwydd. Mae'r celfyddydau yn datgloi ein creadigrwydd a'n dychymyg, gan ein helpu i fod yn ddinasyddion sy'n ymgysylltu mwy, yn fwy gweithgar ac yn teimlo mwy o foddhad mewn bywyd.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. **A yw'r Canllawiau Craidd (SPSF 1) yn esbonio'r hyn a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf mewn ffordd y gellir ei deall gan gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid sydd â diddordeb?**

Ydynt. Croesawn gyflwyno'r Ddeddf a llawn gefnogwn yr hyn a geisia ei gyflawni. Credwn bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn unigol, a sector y celfyddydau ar y cyd, mewn sefyllfa dda i helpu i gyrraedd y nodau llesiant.

Mae'r Canllawiau Craidd yn fanwl a maith, ond credwn eu bod yn glir.

2. **A yw'r Canllawiau Statudol (SPSF 2) yn galluogi cyrff cyhoeddus i gyflawni'r gofynion a ddarperir gan Ran 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**

Ydynt.

Ni ddisgwyliwn anawsterau ymarferol wrth ateb y gofynion i:
- Osod a chyhoeddi amcanion llesiant
- Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny
- Cyhoeddi datganiad ynglŷn ag amcanion llesiant
- Cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol
- Cyhoeddi ein hymateb i unrhyw argymhellion a wneir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Nodwn fod y Ddeddf yn cynnig hyblygrwydd i gyrff cyhoeddus wrth osod amcanion llesiant i wneud hynny mewn ffordd sy'n addas i'w rôl a'u swyddogaethau. Mae'r nodyn cyfarwyddwyd yn nodi Cyngor Celfyddydau Cymru yn benodol fel corff cenedlaethol sydd â swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru gyfan.

Wrth gydnabod ein rôl genedlaethol, mae'r canllawiau yn disgwyl y bydd ein hamcanion llesiant, yn gyffredinol, yn berthnasol yn genedlaethol. Ond y mae, er hynny, yn nodi y gallai fod achosion pan y dewiswn osod amcanion llesiant sy'n berthnasol i ran benodol o Gymru, er enghraifft pe dymunem ymyrryd ynghylch mater lleol pwysig.

Yn ymarferol, y mae cyflenwi'n weithredol yn fwy cymhleth a chynnil. Y mae Cyngor y Celfyddydau yn sefydliad cenedlaethol sydd â pholisïau cenedlaethol, ond rydym yn cyflenwi'n lleol drwy gyllido unigolion a sefydliadau mewn ardaloedd lleol ledled Cymru. I ni, dwy ochr o'r un geiniog ddatblygu yw'r cenedlaethol a'r lleol.

Croesawn felly yr ymagwedd at gynllunio ar lefel ofodol leol oherwydd ar y pwynt cyflenwi mewn cymunedau yn unig y gellir gwireddu partneriaethau a chydweithrediadau real ac ystyrlon a dulliau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Bydd yn her i gyrff cyhoeddus fel ni sydd â chylch gwaith arbenigol i sicrhau y gallwn gefnogi'r ffordd y caiff strategaethau cenedlaethol eu dehongli a'u cyflenwi drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Ond credwn y gellir cyflawni hyn gydag ymrwymiad o'r naill ochr a'r llall. Byddem yn edrych am sicrwydd y câi uchelgeisiau ar lefel genedlaethol ystyriaeth a phwysigrwydd dyledus gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Ni ddylai ffocws ar y dimensiwn lleol olygu diffyg uchelgais o ran cyrhaeddiad ac ansawdd yr hyn y gellir ei gyflawni'n lleol – yn arbennig ym maes diwylliant.

Am y rhesymau hyn, y mae'n bwysig iawn diffinio union natur y berthynas rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r sefydliadau cenedlaethol hynny, a ddynodwyd gan y Ddeddf, nad ydynt yn aelodau statudol o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ond a allai – ar ddisgresiwn y Byrddau hynny, y mae'n ymddangos – fod yn bresennol fel 'cyfranogwyr a wahoddir'. Nid yw nodyn cyfarwyddyd SPSF2 yn cynnwys unrhyw gyngor penodol ar y mater hwn, er y cyfeirir ato yn SPSF3 (para. 24-27). Ar hyn o bryd, ni theimlwn fod hyn yn ddigon clir.

Er ein bod yn croesawu'r gallu, a ganiateir yn y Ddeddf, inni ddylanwadu ar lefel mwy lleol, nid yw'n glir inni beth fydd goblygiadau 'ymyrraeth' bosibl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn yr ardal leol honno. Mewn rhai achosion, gallai Cyngor y Celfyddydau dynnu sylw at fater, ond gallai fod mai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol fyddai â'r ateb. Mewn amgylchiadau o'r fath, beth yw'r rhwymedigaeth, os o gwbl, ar Fwrdd Gwasanaethau Lleol i dderbyn 'cyngor' corff cenedlaethol? Byddem yn croesawu canllawiau pellach ar y pwynt hwn.

Yn ymarferol, y mae'n fwy tebygol y byddem eisiau cydweithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan eu cefnogi a chynnig cymorth cadarnhaol iddynt. Mae eisoes gennym bartneriaethau lleol sydd wedi'u hen sefydlu ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ledled Cymru, a byddem eisiau cadw'r manteision sydd i'r math hwn o weithio ar y cyd. Serch hynny, gallai godi cwestiynau ynghylch sut gallem ddarparu lefel ystyrlon o gymorth ar draws yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. (Trafodir hyn eto isod.)

3. A yw'r Canllawiau (SPSF 2) yn esbonio sut y dylai cyrff cyhoeddus ymateb i argymhellion y Comisiynydd?

Ydynt – mae'r darpariaethau fel y maent wedi'u gosod allan yn y Canllawiau yn ymddangos yn rhesymol.

4. A yw'r Canllawiau Statudol (SPSF 3) yn galluogi byrddau gwasanaethau cyhoeddus i sefydlu a chwblhau eu holl swyddogaethau fel y darperir ar eu cyfer yn Rhan 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

Ydynt – ond gweler y sylwadau isod.

O'n darlleniad ni o'r Canllawiau ar Ymgynghori (para 135), fel un o'r 'partneriaid lleol', tybiwn y byddai gofyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ymgynghori â ni wrth baratoi'r Cynllun Llesiant Lleol. Er mwyn osgoi amheuaeth, credwn y byddai gwerth nodi'n benodol y rhai a fyddai'n cael eu cynnwys.

5. A yw'r Canllawiau Statudol (SPSF 3) yn cefnogi byrddau gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni newid sylweddol yn y ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd tuag at amcanion a rennir?

Ydynt, o bosibl.

Y mae'r broses a'r mecanwaith wedi'u gosod allan yn glir yn y Canllawiau a dylent annog mwy o ffocws ar amcanion a rennir. Ond yn ymarferol, y mae'r broses yn gymhleth a heriol. Felly, fel yn achos y rhan fwyaf o bethau, bydd llwyddiant yn dibynnu ar ansawdd aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, pa mor rymus y bydd yn gyrru ei agenda ymlaen, a pha mor agored ydyw wrth gydweithio â phartneriaid eraill a fframwaith arweinyddiaeth sy'n benderfynol ac ymrwymedig i weithredu ysbryd y ddeddfwriaeth.

6. A yw'r Canllawiau Statudol (SPSF 4) i Gynghorau Cymuned a Thref yn egluro pa gynghorau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 40, a'r hyn y mae'n ofynnol i'r rhai hynny a effeithir ei wneud?

Nid oes gennym unrhyw sylwadau penodol ar y mater hwn.

7. Yng nghyd-destun Diwygio Llywodraeth Leol ac awdurdodau newydd sydd i fod ar waith yn 2020, byddem yn croesawu eich barn ar amseriad priodol y gwaith o ddatblygu asesiadau llesiant lleol, a chynlluniau llesiant lleol, er mwyn galluogi'r Ddeddf i gael ei gweithredu mewn modd amserol ac effeithiol, ond mewn ffordd sy'n cadw'r angen i ddyblygu ymdrech i isafswm.

Gweler 2 uchod.

Byddem eisiau deall sut byddem ni, a'n partneriaid yn sector y celfyddydau, yn cyfrannu at ddatblygu ac asesu'r cynlluniau llesiant lleol.

Gall y celfyddydau gynnig creadigrwydd, dychymyg ac arloesedd i addysg, a dyluniad ac amgylchedd ffisegol y lleoedd y mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae ynddynt, gan ddatblygu cymunedau sy'n economaidd ffyniannus ac yn gymdeithasol

gyfiawn – adeiladu lleoedd y mae pobl yn falch i fyw ynddynt. Y mae'r rhain oll yn feysydd y mae'r celfyddydau yn rhagori ynddynt.

Y mae gennym brofiad llwyddiannus o wneud gwahaniaeth go iawn – yn arbennig gydag awdurdodau lleol a fu'n gweithio mewn partneriaeth â ni ers llawer o flynyddoedd. Hoffem ystyried y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn fecanwaith i gynorthwyo'r dull arfer orau hwn i gael ei ymestyn a'i gofleidio ym mhob un o'r 22 ardal leol. Byddai llai na hyn yn tanbrisio'r cyfraniad y gall y sector diwylliannol wneud i waith y sector cyhoeddus yn ysbryd nodau trosfwaol y ddeddfwriaeth Llesiant. Meddwl yw cam cyntaf creadigrwydd, a gwelwn dro ar ôl tro mor werthfawr yw cael pobl greadigol o amgylch y bwrdd i ysgogi syniadau a dadl yn y sector cyhoeddus – ac nid cyfyngu hynny i faterion sector-benodol chwaith.

8. A oes gennych enghreifftiau o arfer da sy'n dangos camau gweithredu allweddol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y gellid eu rhannu gyda chyrff cyhoeddus eraill?

Y mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru brofiad helaeth a llwyddiannus o gyllido a chyflawni gweithgarwch sy'n cyrraedd pob un o'r nodau Llesiant. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

### Cymru Ffyniannus

- mae ein portffolio o sefydliadau celfyddydol allweddol yn cyflogi bron i 5,000 o bobl ac mae'r gweithgarwch economaidd a gynhyrchant yn darparu cyflogaeth anuniongyrchol i lawer rhagor. Mae cyllid Cyngor y Celfyddydau i'r portffolio hwn o £27m yn sail i drosiant y tu hwnt i £100m

- y mae ein buddsoddiad yn seilwaith celfyddydau'r wlad drwy ein rhaglen o gyllid cyfalaf y Loteri wedi cynorthwyo 1,662 o brosiectau, gan fuddsoddi bron i £120 miliwn yn economi Cymru. Mae hyn wedi ysgogi cyfanswm gwariant o ryw £537 miliwn

- Mae cyllid Cyngor y Celfyddydau yn galluogi artistiaid i ddatblygu gyrfaoedd proffesiynol yng Nghymru, gan ddatblygu eu creadigrwydd, eu crefft a'u sgiliau technegol. Ac i'r sefydliadau hynny sy'n 'barod i'r farchnad', mae ein hadain ryngwladol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, yn buddsoddi yn y gwaith ymchwil a datblygu sy'n agor llwybrau i gyfleoedd newydd dramor

### Cymru Gydnerth

- mae ein rhaglen datblygu busnes yn rhoi i sefydliadau'r celfyddydau y sgiliau a'r gallu i fanteisio ar botensial ariannol eu gweithgarwch creadigol

- cynorthwywn nifer o fentrau rhwng cymheiriaid, gan gynnwys nifer o rwydweithiau, i hybu'r arfer o rannu arferion gorau, cyngor a chymorth, gan gynnwys rhwydwaith Cymrodorion Clore, Creu Cymru, Eginiad, Celf yn Gweithio a PIRC

## Cymru Iachach

- Mae Gŵyl Gwanwyn, a gyllidir gan Gyngor y Celfyddydau, yn hyrwyddo gweithgarwch y celfyddydau gan bobl hŷn ac i bobl hŷn ar draws 11 o awdurdodau lleol yng Nghymru

- Mae rhaglen Creadigrwydd yn Seiliedig ar y Person, Cwm a Bro, a gyllidir gan Gyngor y Celfyddydau, wedi'i mabwysiadu mewn amrywiaeth eang o leoliadau gofal iechyd a llesiant, ac mae rhagor na 300 o weithwyr gofal proffesiynol yn elwa o hyfforddiant y sefydliad

- Rhaglen o weithgareddau celfyddydol ac iechyd meddwl yw Menu 4 Life, i gael eu cyflenwi mewn dau Glwstwr Cymunedau yn Gyntaf yng Nghwm Ebwy Fach. Y mae'r rhaglen bellach yn rhan greiddiol o Gynllun Gweithredu Cymunedau Iachach

## Cymru sy'n fwy Cydradd

- gwariodd Cyngor y Celfyddydau mwy na £7.1m yn 2014/15 mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf

- Gŵyl Undod yw un o'r gwyliau celfyddydol cynhwysol mwyaf yn Ewrop ac mae'n dathlu'r arfer o gynnwys pobl ag anableddau neu anableddau dysgu wrth iddynt greu a chyflwyno eu gwaith

- cynllun tocynnau cenedlaethol a ysgogwyd gan Gyngor y Celfyddydau yw Hynt, ac mae'n helpu rhagor o bobl anabl i fynychu'r celfyddydau

## Cymru o Gymunedau Cydlynol

- mae Cyngor y Celfyddydau yn cynorthwyo rhwydwaith o sefydliadau sydd wedi ymwreiddio mewn cymunedau lleol, gan gynnig mynediad dydd-i-ddydd dibynadwy a sefydlog i'r celfyddydau ledled Cymru

- mae sefydliadau celfyddydol cymunedol yn mynd i'r afael â thlodi cyfleoedd, mynediad a dyheadau, gan gyflenwi rhaglenni sy'n darparu hyfforddiant, yn datblygu sgiliau ac yn adeiladu gallu

- mai partneriaid, megis Tai Cymunedol Calon, yn cynnal ymgynghoriad â'r cyhoedd mewn ffordd sy'n cael ei harwain gan y celfyddydau ynghylch eu cynllun gwelliannau amgylcheddol gwerth £14m; mae'n cynnwys 9 artist, ac yn cyflenwi 60 o sesiynau

celfyddydol mewn 8 o leoliadau ledled Blaenau Gwent, gan gynhyrchu 854 o gyfranogwyr o rannau o'r gymuned sy'n 'anodd eu cyrraedd'

### Cymru o Ddiwylliant a Chymraeg Ffyniannus

- Enillodd y band Cymraeg, 9Bach, albwm y flwyddyn yng Ngwobrau Gwerin 2015 BBC Radio 2

- Bu i Ffilm Cymru ddatblygu a chynhyrchu 12 ffilm, gan gynnwys 3 yn y Gymraeg

- mae gan gelfyddydau Cymru enw da yn y wlad hon a thramor – mae Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn cyflwyno 60 o gyngherddau ledled Cymru a 43 o ddarllediadau yn 2014/15; mae Nofit State yn cyflwyno tri chynhyrchiad ledled y Deyrnas Unedig ac yn teithio i Ffrainc, yr Iseldiroedd ac Iwerddon; mae Opera Cenedlaethol Cymru yn chwifio baner Cymru dramor yng ngwledydd Llychlyn ac yn y Dwyrain Canol

### Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang

- prosiect ymchwil mawr ym maes y celfyddydau a cynaliadwyedd yw *Eginiad*, ac mae'n hyrwyddo cynaliadwyedd

9. Rydym wedi gofyn 8 cwestiwn penodol ynghylch y canllawiau drafft. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi eu trin yn benodol, mynegwch eich barn fan hyn.

### Cyfle ar gyfer newid trawsffurfiol

Croesawn brif-ffrydio'r Ddeddf yng ngwaith craidd cyrff cyhoeddus allweddol. Er mwyn cyflawni amcanion y Ddeddf, y mae'n hanfodol bod llesiant a chynaliadwyedd yn gyrru cynlluniau corfforaethol y sefydliadau (fel a amlinellir yn y Canllawiau). Rhaid iddo fod yn sylfaenol i waith cynllunio'r sefydliadau, nid yn atodol iddo.

### Ystyried yr effeithiau pell

Mae cynllunio hirdymor yn caniatáu i sefydliadau edrych yn bellach i'r dyfodol a chynllunio canlyniadau mwy uchelgeisiol. Ond mae'r gyfundrefn ariannu yng Nghymru – gyda chyllidebau yn cael eu cytuno yn flynyddol – yn milwrio yn erbyn cynllunio mwy hirdymor. Byddem yn croesawu'r gallu i gynllunio ymlaen yn ariannol a bod â'r gallu i gario cyllid ar draws blynyddoedd ariannol. Mae datblygiadau a gynlluniwyd ac a gyllidebwyd ar eu cyfer yn aml yn disgyn ar draws blynyddoedd ariannol ac weithiau yn rhedeg yn hwyr am resymau da a dilys. Byddai gallu cynllunio adnoddau ar draws oes prosiect, yn hytrach na blynyddoedd ariannol, yn fuddiol.

## Mesur yr hyn sy'n cyfri – llythyren ac ysbryd y Ddeddf

Mae angen dulliau priodol o werthuso a sicrhau gwerth cyhoeddus sy'n parchu ysbryd y ddeddfwriaeth. Croesawn y camau i werthuso canlyniadau ac ansawdd yn hytrach na maint, ond mewn ffordd mae'r holl egwyddorion cyfannol sydd y tu ôl i ddatblygu cynaliadwy yn awgrymu bod angen dull gwahanol, mwy cynhenid, wrth ymateb.

Rydym yn ymwybodol bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ymchwilio i fodelau archwilio ac adrodd sy'n dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn. Cefnogwn ymdrechion i ystyried y dulliau gwahanol hyn. Rhaid inni gymryd y cyfle a gyniga'r Ddeddf inni i ailddychmygu atebolrwydd a gwerth cyhoeddus. Pe na byddem yn gwneud hyn, y mae perygl y caiff elfen gychwynnol y broses ei thanseilio gan yr elfen olaf, neu – hyd yn oed yn waith – y bydd dulliau rhyfeddol o feichus yn cael eu datblygu i gyrff cyhoeddus i gyfrif amdanynt eu hunain mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth. Y mae llawer o agweddau ar lesiant nad ydynt yn hawdd eu mesur a'u gwerthuso yn feintiol.

Cefnogwn y bwriad i sicrhau y caiff 7 nod Llesiant eu hystyried yn eu holl agweddau. Bydd llawer o achlysuron lle gallai gweithredoedd gael sgôr uchel yn erbyn un nod ac isel iawn yn erbyn nod arall. Er enghraifft, ystyriwch fwyd ysbyty a gaiff ei brynu yn rhad ond sydd o ansawdd gwael ac sy'n cael ei gludo o bell. Byddai'r bwyd rhatach yn cael sgôr uchel o ran budd economaidd am y byddai hynny'n rhyddhau mwy o arian i ofal iechyd, ond byddai o werth maethol isel i gleifion sy'n gwella ac i'r economi lleol wrth iddo ddwyn busnes oddi ar gyflenwyr lleol. Nid yw'n glir yn y Canllawiau sut y câi'r gwahanol elfennau eu cydbwyso gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol. Ni wnaiff y sefyllfa bresennol wireddu uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn galw am fframwaith o wneud penderfyniadau sy'n gwbl wahanol, a gwelwn fod rôl i feddwl yn greadigol yn hynny.

## Sicrhau newid – adnoddau a buddsoddiad

Mae'r ddeddfwriaeth yn agor y posibilrwydd o sefyllfaoedd niferus o gydweithio a phartneriaethau a allai fod o fudd i ddinasyddion. Ond, ar yr un pryd, ni fu arian cyhoeddus erioed o dan gymaint o bwysau. Mae'r modd y mae cyfrifoldebau (a chyllid) awdurdodau lleol wedi'u rhannu'n bresennol rhwng agweddau Statudol a Dewisol yn peryglu llawer o'r trydydd sector. Y mae dirfawr angen ei ddiwygio.

Mae angen gweledigaeth newydd a strategaeth ariannol newydd.

Nid yw ymagwedd ddeuol at agweddau statudol/dewisol yn adlewyrchu'n ddigonol yr ymagwedd mwy cynnil at fuddsoddi, cyllido a gwasanaethau a fydd angen er mwyn i'r Llywodraeth gyrraedd ei nodau llesiant.

Rôl Llywodraeth Cymru yw gosod y fframwaith strategol a'r cyfeiriad polisi ar gyfer gwasanaethau ar lefel genedlaethol a rôl llywodraeth leol yw cyflenwi'r gwasanaethau hynny gan ystyried amgylchiadau a phwysau lleol.

Byddem yn awgrymu felly, wrth i strwythurau newydd gael eu cyflwyno i'r dyfodol i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cynnig gweledigaeth glir a phenodol sy'n nodi rôl gweithgarwch y trydydd sector (megis y celfyddydau a diwylliant) fel rhan o ddehongliad deallus o sut caiff nodau llesiant eu cyflawni.

## Sylwadau clo

### Felly'n awr, dychmygwch eto …

Dychmygwch y Gymru y gallem ei chreu petaem gyda'n gilydd yn gwneud hyn oll a mwy.

Cymru lle y caiff celfyddyd ei deall fel ystyr bywyd. Cymru lle mae mecanweithiau goroesi gwladwriaeth les – o iechyd, i nawdd cymdeithasol, i addysg – yn datblygu i fod yn ffyrdd sy'n caniatáu i bobl ffynnu. Cymru y caiff ei democratiaeth ei bywiocau gan allu ei phobl i ddychmygu eu hunain a'u dibenion, yn unigolion a chymdeithasol, wrth gydymdrechu at well ansawdd bywyd.

### Y mae Cyngor y Celfyddydau yn glir ynglŷn â'r rôl arweiniol y dymunwn fabwysiadu.

Y mae ein gweledigaeth i'r dyfodol yn ddim llai na Chymru greadigol lle y mae'r celfyddydau yn ganolog i fywyd y genedl – lle y caiff ein doniau gorau eu datgelu, eu meithrin a'u rhannu, a lle mae gan gymunedau ledled Cymru y cyfle i fwynhau a chymryd rhan yn yr elfennau gorau sydd gan ein hartistiaid a'n sefydliadau celfyddydol i'w cynnig.

### Croesawn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi cynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy wrth galon y llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach.

Fel mewn cymaint o feysydd ym mywyd dinesig a diwylliannol, mae gan y celfyddydau rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi egwyddorion llesiant a chynaliadwyedd. A bydd mynd i'r afael â'r materion hyn yn helpu i greu cymunedau cydnerth gydag unigolion y mae eu bywydau yn greadigol, yn gadarnhaol ac yn gynhyrchiol.

Edrychwn ymlaen at chwarae ein rhan.